Ydych chi'n cael trafferth talu am ynni?

Dyled ynni: gwybod eich hawliau

Nid chi yw'r unig un. Hyd yn oed os oes arnoch arian i'ch cyflenwr ynni, **mae yna reolau sy'n eich amddiffyn.**

Mae'n rhaid i'ch cyflenwr geisio eich helpu, **cysylltwch â nhw yn fuan.** Mae eu manylion ar eich bil neu gyfrif ar-lein.

Gwybod eich hawliau

Triniaeth deg

Mae'n rhaid i'ch cyflenwr eich trin yn deg. Mae'n rhaid iddynt ystyried eich amgylchiadau fel salwch, beichiogrwydd, incwm isel neu sefyllfaoedd eraill sy'n golygu bod angen cymorth arnoch.

Biliau clir a chywir

Mae'n rhaid i gyflenwyr ddefnyddio darlleniadau mesurydd rydych yn eu darparu i anfon biliau clir a chywir mewn ffordd rydych yn ei deall.

Gallwch ofyn am filiau ar ffurf braille, sain, neu fformat arall sy'n eich helpu i ddeall.

Os na wnaethoch dderbyn bil, ni all eich cyflenwr godi tâl arnoch am ynni a ddefnyddiwyd dros flwyddyn yn ôl oni bai eich bod wedi ei gwneud hi'n anodd i'ch bilio.

Cynllun ad-dalu teg

Os ydych mewn dyled, mae'n bosibl y gallwch gytuno ar gynllun gyda'ch cyflenwr i ad-dalu eich dyled yn araf mewn ffordd y gallwch ei fforddio.

Cymorth a chyngor

Mae'n rhaid i'ch cyflenwr gynnig cymorth sy'n addas i'ch anghenion, fel tariff ynni gwell neu eich cyfeirio at gyngor annibynnol ac am ddim ar ddyled gan sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth.

Os ydych ar ei hôl hi gydag ad-daliadau, siaradwch â'ch cyflenwr. Mae'n bosibl y gallech gael saib rhag talu am gyfnod.

Gallwch newid sut rydych yn talu. Siaradwch â'ch cyflenwr i weld ai mesurydd rhagdalu sydd orau gyfer eich sefyllfa.

Mynediad at gymorth ariannol

Os ydych yn gymwys bydd eich cyflenwr yn eich helpu i ddod o hyd i'r cymorth cywir, fel cronfeydd a chynlluniau caledi.

Hyd yn oed os ydych mewn dyled, gallwch gwyno i'ch cyflenwr o hyd os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg. Os na fydd eich cyflenwr yn datrys y mater, gall yr Ombwdsmon Ynni annibynnol helpu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.energyombudsman.org/contact-us**.

Anaml iawn y bydd eich cyflenwad ynni yn cael ei dorri am fod arian yn ddyledus gennych. Y peth gorau y gall eich cyflenwr ei wneud yw eich helpu.

Gallwch gael cyngor annibynnol ac am ddim ar ddyled gan amrywiaeth o sefydliadau. Dyma rai isod:

Cyngor ar Bopeth
Lloegr: 0800 144 8848
Cymru: 0800 702 2020
Yr Alban: 0800 028 1456

Stepchange
0800 138 1111
www.stepchange.org/

Y Llinell Ddyled Genedlaethol
0808 808 4000
nationaldebtline.org/

Energyadvice.scot
0808 196 8660
energyadvice.scot/

Gallwch ddod o hyd i ragor o sefydliadau a mwy o wybodaeth ar wefan Ofgem **www.ofgem.gov.uk/information-consumers**